Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Sir Powys

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1803A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Powys fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Lisa Williams, Phil Pugh, David Burridge, Sara Leahy a Charles Rigby dan gyfarwyddyd Huw Rees ac Anthony Veale.

# Cynnwys

Yn sgîl yr heriau sylweddol y mae'r Cygor wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw ei berfformiad ariannol wedi bod yn gynaliadwy; fodd bynnag, mae'r Cyngor yn deall yr heriau ariannol sylweddol y mae'n eu hwynebu dros y tymor canolig ac mae'n gweithio i gryfhau ei gydnerthedd ariannol ar y cyfan.

Adroddiad cryno

Adroddiad manwl

Yn sgîl yr heriau sylweddol y mae'r Cyngor wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw ei berfformiad ariannol wedi bod yn gynaliadwy; fodd bynnag, mae'r Cyngor yn deall yr heriau ariannol sylweddol y mae'n eu hwynebu dros y tymor canolig ac mae'n gweithio i gryfhau ei gydnerthedd ariannol ar y cyfan 7

Mae'r strategaeth ariannol tymor canolig ar gyfer y cyfnod o 2020 i 2025 yn nodi bylchau sylweddol o ran cyllid ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol (yn seiliedig ar nifer o senarios) ac mae'r broses cynllunio busnes integredig a gyflwynwyd yn ddiweddar ynghyd â'r rhaglen drawsnewid yn allweddol i allu'r Cyngor i lenwi'r bylchau hyn 7

Mae'r Cyngor wedi gorwario mewn meysydd gwasanaeth allweddol yn erbyn ei gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf 9

Nid oes gan y Cyngor hanes o gyrraedd ei holl dargedau blynyddol o ran arbedion wedi'u cynllunio 10

Er bod lefel cronfa gyffredinol y Cyngor wedi aros yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, mae lefel ei gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wedi gostwng 12

Mae cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor wedi bod yn sefydlog gan mwyaf wrth i swm incwm y Dreth Gyngor gynyddu 14

Mae lefel fenthyca'r Cyngor wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf a rhagwelir y bydd y cynyddu ymhellach ond mae'n dal o fewn ei Ofyniad Cyllid Cyfalaf 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu ‘dangosyddion’ ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb
- Cyflawni cynlluniau arbedion
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

**Arddangosyn 1: Ynglŷn â’r Cyngor**

Mae’r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae’n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £185.425m (heb gynnwys Ysgolion)**



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 6000 o bobl**




**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £837m**

Ffynhonnell: Hunanasesiad Cyngor Sir Powys o Gynaliadwyedd Ariannol / Gweledigaeth Powys 2025 (2019) / Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Powys 2018/19

3 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

**Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor**

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian a gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2018-19




Ffynhonnell – hunanasesiad y Cyngor

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a mis Ionawr 2020 ac mae ein hadolygiad yn cwmpasu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r blynyddoedd ariannol o 2014-15 i 2024-25.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: yn sgîl yr heriau sylweddol y mae'r Cyngor wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw ei berfformiad ariannol wedi bod yn gynaliadwy; fodd bynnag, mae'r Cyngor yn deall yr heriau ariannol sylweddol y mae'n eu hwynebu dros y tymor canolig ac mae'n gweithio i gryfhau ei gydnerthedd ariannol ar y cyfan:

- Mae'r strategaeth ariannol tymor canolig ar gyfer y cyfnod o 2020 i 2025 yn nodi bylchau sylweddol o ran cyllid ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol (yn seiliedig ar nifer o senarios) ac mae'r broses cynllunio busnes integredig a gyflwynwyd yn ddiweddar ynghyd â'r rhaglen drawsnewid yn allweddol i allu'r Cyngor i lenwi'r bylchau hyn.
- Mae'r Cyngor wedi gorwario mewn meysydd gwasanaeth allweddol yn erbyn ei gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf.

- Nid oes gan y Cyngor hanes o gyrraedd ei holl dargedau blynyddol o ran arbedion wedi'u cynllunio.
- Er bod lefel cronfa gyffredinol y Cyngor wedi aros yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, mae lefel ei gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wedi gostwng.
- Mae cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor wedi bod yn sefydlog gan mwyaf wrth i swm incwm y Dreth Gyngor gynyddu
- Mae lefel fenthyca'r Cyngor wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf a rhagwelir y bydd y cynyddu ymhellach ond mae'n dal o fewn ei Ofyniad Cyllid Cyfalaf

# Adroddiad manwl

## Yn sgîl yr heriau sylweddol y mae'r Cyngor wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw ei berfformiad ariannol wedi bod yn gynaliadwy; fodd bynnag, mae'r Cyngor yn deall yr heriau ariannol sylweddol y mae'n eu hwynebu dros y tymor canolig ac mae'n gweithio i gryfhau ei gydnerthedd ariannol ar y cyfan

### Mae'r strategaeth ariannol tymor canolig ar gyfer y cyfnod o 2020 i 2025 yn nodi bylchau sylweddol o ran cyllid ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol (yn seiliedig ar nifer o senarios) ac mae'r broses cynllunio busnes integredig a gyflwynwyd yn ddiweddar ynghyd â'r rhaglen drawsnewid yn allweddol i allu'r Cyngor i lenwi'r bylchau hyn

#### Pam fod cynllunio strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

7 Mae'r strategaeth ariannol tymor canolig ar gyfer y cyfnod o 2020 i 2025 yn nodi bylchau sylweddol o ran cyllid ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol (yn seiliedig ar nifer o senarios) ac mae'r broses cynllunio busnes integredig a gyflwynwyd yn ddiweddar ynghyd â'r rhaglen drawsnewid yn allweddol i allu'r Cyngor i lenwi'r bylchau hyn. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:


- ym mis Ebrill 2019, gofynnodd y Cyngor i'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) gynnal Adolygiad o'r Gallu o ran Rheoli Ariannol. Un o'r casgliadau allweddol oedd, er bod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) ar y pryd yn 'gynllun a baratowyd â chryn ystyriaeth, bod angen ei hintegreiddio'n fwy â'r broses danategol i gynllunio gwasanaethau ac roedd y tybiaethau sylfaenol i'w gweld fel pe baent yn seiliedig i raddau helaeth ar ddyheadau/disgwyliadau'.
- gan ymateb i'r heriau hyn, yn ddiweddar fe gyflwynodd y Cyngor Gynlluniau Busnes Integredig (CBI). Nod y broses newydd yw sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu blaenoriaethu i gyflawni'r deilliannau a ddiffinnir yng

Ngweledigaeth 2025 y Cyngor, gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng y rhaglen drawsnewid a'r SATC yn y dyfodol. Mae'r CBI sydd wedi cael eu paratoi ar gyfer y cyfnod 2020-23 yn darparu cysylltedd gwell rhwng blaenoriaethau'r Cyngor a'r modd y mae'n cyflawni cyllidebau.

- gan bod cyflwyno CBI yn fenter newydd bydd yn cymryd amser i'r rhain ymwreiddio'n llawn ar draws yr holl wasanaethau. Mae'r Cyngor yn amcanu at ddatblygu a chryfhau'r cynlluniau hyn trwy fonitro, herio a chraffu ar y cynnwys a'r ansawdd.
- mae'r Cyngor wedi defnyddio dull darbodus yn ei SATC 2020-2025 (a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Chwefror 2020), gyda'r senario achos gwaethaf yn nodi diffyg o £32.8 miliwn o ran y cyllid o 2021-22 i 2024-25. Yn ychwanegol at hyn, mae lefel yr arbedion wedi'u cynllunio sy'n ofynnol ar gyfer 2020-21 yn £10.8 miliwn.

**Arddangosyn 3: y bwlch o ran cyllid a ragamcanir**

Mae'r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y pedair blynedd nesaf yn seiliedig ar senario achos gwaethaf ac ystyried gostyngiadau yn y gyllideb sydd eisoes wedi'u hadnabod. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r cyhoeddiad ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Leol ym mis Rhagfyr 2019




Ffynhonnell: y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) ddrafft 2020-25

## Mae'r Cyngor wedi gorwario mewn meysydd gwasanaeth allweddol yn erbyn ei gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir?

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

9 Canfuom fod y Cyngor wedi gorwario mewn meysydd gwasanaeth allweddol yn erbyn ei gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- yn y tair blynedd ariannol ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi cael anhawster aros o fewn ei gyllideb refeniw flynyddol ar gyfer rhai meysydd gwasanaeth allweddol, e.e. Gwasanaethau Plant, a'r Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu ac yntau wedi profi pwysau ariannol sylweddol a gorwariannau o ganlyniad i hynny. Mae'r Gwasanaethau Plant wedi gorwario o fwy na £5.5 miliwn yn 2017-18 ac yn 2018-19 ac mae'n rhagweld sefyllfa alldro a fydd yn dangos diffyg o £4.9 miliwn ar gyfer 2019-20.
- mae grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a ddyfarnwyd yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, defnyddio cronfeydd wrth gefn penodol ac addasiadau cyfrifyddu eraill (e.e. y newid ym mholisi'r Cyngor ar gyfer ei Isafswm Darpariaeth Refeniw) wedi helpu i gyflawni gostyngiad sylweddol yn lefel y gorwariannau a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn neu sicrhau na ddigwyddodd gorwariannau a ragwelwyd.
- fe barhaodd y Cyngor i wynebu pwysau o ran y gyllideb yn 2019-20 fel a amlygwyd yn Adroddiad Trosolwg a Rhagolwg Ariannol Tachwedd 2019, a oedd yn rhagweld diffyg posibl ar ddiwedd y flwyddyn o £1.765 miliwn, pe na bai gostyngiadau yn y gyllideb yn cael eu cyflawni. Roedd yr adroddiad yn dweud bod gostyngiadau digonol yn y gyllideb wedi'u sicrhau i gyflawni cyllideb fantoledig ar gyfer y flwyddyn.

**Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a'r sefyllfa y mae'n ei rhagweld ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer 2019-20 o ran y sefyllfa ym mis Hydref 2019

| | Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net | Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net | Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan | Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £164.5m | £160.9m | Tanwariant o £3.7m | Tanwariant o 2.2% |
| 2018-19 | £171.7m | £172.4m | Gorwariant o £0.7m | Gorwariant o 0.4% |
| 2019-20 (ar ddiwedd mis Tachwedd 2019) | £185.4m | £187.2m | Gorwariant o £1.8m | Gorwariant o 0.95% |

Ffynhonnell: Hunanasesiad Cyngor Sir Powys

## Nid oes gan y Cyngor hanes o gyrraedd ei holl dargedau blynyddol o ran arbedion wedi'u cynllunio

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion, neu raglenni lleihau costau neu gyllidebau, yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle mae'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

11 Canfuom nad oes gan y Cyngor hanes o gyrraedd ei holl dargedau blynyddol o ran arbedion wedi'u cynllunio. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'r Cyngor wedi gallu cyrraedd ei holl dargedau blynyddol o ran arbedion wedi'u cynllunio dros y blynyddoedd diwethaf.

| Blwyddyn Ariannol | Targed o ran Arbedion wedi'u Cynllunio £m | Arbedion a Gyflawnwyd £m | % yr Arbedion wedi'u Cynllunio a Gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| 2014-15 | 17.6 | 14.0 | 80% |
| 2015-16 | 12.8 | 9.7 | 76% |
| 2016-17 | 12.1 | 9.6 | 79% |
| 2017-18 | 11.8 | 8.3 | 71% |
| 2018-19 | 12.3 | 6.5 | 53% |
| 2019-20 | 21.7 | 16.4m (amcangyfrif) | 76% |

- Mae lefel yr arbedion wedi'u cynllunio sy'n ofynnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 yn £21.7 miliwn. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys gostyngiadau yn y gyllideb a risgiau sydd i'w gwrthbwyso gan wasanaethau. Mae hyn yn sylweddol fwy nag mewn blynyddoedd blaenorol.
- Mae adroddiadau rheoli Tachwedd 2019 yn amlygu bod cwantwm yr arbedion y mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn eu cyflawni ar gyfer 2019-20 yn uwch nag mewn blynyddoedd diweddar, gydag £14.0 miliwn yn cael ei gyflawni hyd yma ac amcangyfrif y bydd £2.4 miliwn pellach yn cael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn, gyda disgwyl y bydd yr arbedion yn 76% o'r targed.
- Er y gwnaed gwelliannau bob yn dipyn i drylwyredd cynigion ar gyfer arbedion a ddarparwyd gan feysydd gwasanaeth a'r modd yr heriwyd y cynigion hynny cyn pennu cyllideb 2019-20, mae rhyw £5.3m o'r arbedion wedi'u cynllunio sy'n ofynnol yn 2019-20 yn annhebygol o gael eu cyflawni. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhaid ail-seilio cyllidebau gwasanaethau i gael gwared ar y bylchau hyn ac mae'r gyllideb ar gyfer 2020-21 yn ymdrin â hyn.
- Dylai gwreiddio'r dull cynllunio busnes integredig yn llawn o fewn y cyfarwyddiaethau a'r meysydd gwasanaeth, ynghyd â phrosesau craffu cryfach roi cymorth pellach i'r Cyngor gynllunio a chyrraedd ei darged arbedion yn y dyfodol.
- O ganlyniad i'r setliad llywodraeth leol gwell na'r disgwyl, er ei bod yn dal i fod yn her, mae lefel yr arbedion wedi'u cynllunio sy'n ofynnol ar gyfer 2020-21, sef £10.8 miliwn, yn llai nag yn y blynyddoedd ariannol blaenorol.

**Arddangosyn 5: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio**

Mae'r arddangosyn isod yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| £12.3m | £6.5m | £5.8m | 53% |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

Ffynhonnell: Hunanasesiad Cyngor Sir Powys

## Er bod lefel cronfa gyffredinol y Cyngor wedi aros yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, mae lefel ei gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wedi gostwng

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom fel a ganlyn: Er bod lefel cronfa gyffredinol y Cyngor wedi aros yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, mae lefel ei gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wedi gostwng:

- er bod lefel Cronfa Gyffredinol y Cyngor wedi aros yn weddol gyson ers 31 Mawrth 2017, mae ei gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wedi gostwng £10.3 miliwn yn yr un cyfnod.

- ers 31 Mawrth 2016 mae lefel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor ar y cyfan (yn ôl y diffiniad ar gyfer yr astudiaeth hon)[1] wedi gostwng oddeutu 29% (31 Mawrth 2016 £38.3 miliwn, 31 Mawrth 2019 £27.1 miliwn). Yn 2018-19 ar sail eithriadol ac mewn ymateb uniongyrchol i wella darpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn dilyn arolygiad, defnyddiodd y Cyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i reoli'r buddsoddiad yr oedd ei angen. Mae'r Cyngor yn cydnabod mai darpariaeth untro oedd hon ac na all barhau i ddefnyddio'i gronfeydd wrth gefn i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn yn y ffordd yma.

- mae'r Adroddiad Trosolwg a Rhagolwg Ariannol dyddiedig 31 Tachwedd 2019 yn dynodi bod y Cyngor yn bwriadu defnyddio £1.256 miliwn yn ychwanegol o'i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi defnyddiadwy yn 2019-20 i gefnogi meysydd gwariant penodol, heb gynnwys ysgolion.

- mae'r Cronfeydd wrth Gefn Dirprwyedig Ysgolion dan bwysau hefyd, gyda'r rhagolygon ar 31 Mawrth 2020 yn dynodi y bydd balans y cronfeydd wrth gefn yn dangos diffyg o £2.195 miliwn. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21 yn cynnwys cyllid i helpu i ariannu'r pwysau a wynebir gan ysgolion yn 2020-21 gan amcanu at helpu i sefydlogi cyllidebau ysgolion. Yn dilyn y Gynhadledd Gwella Ar Ôl Arolygiad ar 28 Tachwedd 2019, mae Estyn wedi argymell bod y Cyngor yn parhau i wella ansawdd rheolaeth ariannol mewn ysgolion ac yn cymryd camau priodol i ymdrin ag ysgolion sydd â diffyg sylweddol yn eu cyllidebau.

- mae'r Cyngor wedi cytuno ar yr egwyddor, a nodir yn ei SATC 2020-25 na fydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ariannu pwysau cyllidebol. Dylai'r broses Cynlluniau Busnes Integredig a gyflwynwyd yn ddiweddar gryfhau'r cysylltiadau rhwng y rhaglen drawsnewid a'r SATC yn y dyfodol a bydd yn allweddol i sicrhau bod cyllidebau realistig yn gallu cael eu pennu a'u cyflawni heb yr angen i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.

[1] Fel a ddiffiniwyd gan gwmpas yr adolygiad hwn, mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n golygu'r gronfa gyffredinol ac unrhyw gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi sy'n briodol (heb gynnwys derbyniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn ysgolion, cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai)


**Arddangosyn 6: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn



£184m

**Cyllideb Refeniw Net (heb gynnwys Ysgolion)**



£27.1m

**Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy ar 31 Mawrth 2019**[2]



15%

**Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net**

Ffynonellau: Datganiad Cyfrifon a hunanasesiad Cyngor Sir Powys

## Mae cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor wedi bod yn sefydlog gan mwyaf wrth i swm incwm y Dreth Gyngor gynyddu

### Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

14 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw'r ffynhonnell cyllid fwyaf ar gyfer cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

### Yr hyn a ganfuom

15 Canfuom fod cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor wedi bod yn sefydlog gan mwyaf wrth i swm incwm y Dreth Gyngor gynyddu:

- Mae cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor yn y pedair blynedd ddiwethaf wedi amrywio rhwng 97.3% a 98.9%. Mae'r cyfraddau hyn naill ai'r un fath â chyfartaledd yr holl Gynghorau yng Nghymru neu'n uwch na'r cyfartaledd hwnnw
- Mae swm incwm y Dreth Gyngor wedi cynyddu 18% yn y pedair blynedd ddiwethaf

[2] Fel a ddiffiniwyd gan gwmpas yr adolygiad hwn, mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n golygu'r gronfa gyffredinol ac unrhyw gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi sy'n briodol (heb gynnwys derbyniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn ysgolion, cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai)

- Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd y Dreth Gyngor fel cyfran o'r cyllid refeniw yn cynyddu dros y pum mlynedd nesaf o 31.7% yn 2019-20 i 39.6% erbyn 2024-25.

**Arddangosyn 7: cyfraddau casglu'r dreth gyngor**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19



Roedd yr incwm a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn 97.3% o'i gymharu â debyd casgladwy o **£83.6m**

Ffynhonnell: Cyfraddau Casglu'r Dreth Gyngor yng Nghymru gan Stats Cymru: 2018-19

## Mae lefel fenthyca'r Cyngor wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf a rhagwelir y bydd y cynyddu ymhellach ond mae'n dal o fewn ei Ofyniad Cyllid Cyfalaf

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

### Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom fod lefel fenthyca'r Cyngor wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf a rhagwelir y bydd y cynyddu ymhellach ond mae'n dal o fewn ei Ofyniad Cyllid Cyfalaf:

- hyd yma mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth fenthyca sydd â risg weddol fach ac mae ei ddull o ran buddsoddi cyfalaf yn canolbwyntio'n bennaf ar adnewyddu a gwella'i adnoddau presennol yn hytrach na benthyca i gefnogi buddsoddiadau neu weithgareddau masnachol.

- ers 31 Mawrth 2016, mae lefel fenthyca'r Cyngor ar y cyfan wedi cynyddu oddeutu 32% o £230 miliwn i £303 miliwn o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019. Mae'r Cyngor wedi cynnal sefyllfa o danfenthyca yn erbyn ei Ofynion Cyllid Cyfalaf fel rhan o'i Strategaeth Rheoli Trysorlys.

- mae'r SATC ddrafft 2020-25 a'r Gyllideb a Rhaglen Gyfalaf ddrafft 2020-2021 a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Ionawr 2020 yn dynodi bod y lefel fenthyca hirdymor yn debygol o gynyddu ymhellach yn y tymor canolig. Rhagwelir mai tua £445 miliwn fydd y lefel fenthyca hirdymor ar 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn gynnydd pellach mewn benthyciadau o 46%.

**Arddangosyn 8: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor**

Mae'r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae'r Cyngor wedi'i fenthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o'i gyllideb refeniw net

£0m

Cyfanswm yr arian a fenthyciwyd i ariannu buddsoddiadau masnachol

4.4%

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o'r gyllideb refeniw net 2018-19

Ffynhonnell: Hunanasesiad Cyngor Sir Powys

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.